Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

Tachwedd 2024

Ar 26 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Tybaco a Fêps, ac i gyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 7 Chwefror 2025.